

CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD Y GYLLIDEB CYNGOR LLAWN
Nos Iau 12fed Ionawr, 2017 @ 7:30pm
NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CADEIRYDD – CYFLWYNIAD

Dyweddodd Y Maer y Cyngh. David Smith mai pwrpas y cyfarfod oedd pennu'r Praesept (y dreth leol a hawlir gan y Cyngor Tref), ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (Ebrill 2017-Mawrth 2018).

YN BRESENNOL:

Y Maer y Cyngh. David Smith; Y Dirprwy-Faer Hag Harris;

Cynghorwyr Tref: Rhys Bebb-Jones; Andrew Carter;
Robert Phillips; Christopher Thomas; Selwyn Walters;
Mr Derek Marshall (Archwiliwr Mewnol).

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Gyngh. Elsie Dafis; John Davies; Elin Jones; Kistiah Ramaya; Ann Morgan; Dorothy Williams & Derek Wilson.

3. DATGELU BUDDIANT PERSONOL – Ni ddatgelwyd fuddiant personol.

4. Y PRAESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL NESAF

Tywysodd y Maer aelodau trwy'r Adroddiad y Gyllideb (ynghlwm) gan godi ymholiadau lle bo gofyn. Nodwyd yr eitemau oedd angen gwariant ychwanegol o bosibl.

Y Materion a godwyd a ganlyn:

4.1 Cofnod 1 o'r Adroddiad Atodiad 4 - Beth yw Asedau Sefydlog y Cyngor Tref?

Gwerth Asedau Sefydlog y Cyngor Tref ar yr 31/03/2016 oedd £164,617.83. Ni gynhwyswyd eitemau eraill gan eu heb fod o werth ariannol. Yn ôl Grant Thornton Archwilwyr Ariannol, dylid prisio'r eitemau yn unol â'r gost cychwynnol (os yn hysbys) ac "heb fod o werth ariannol" pan nad yw'n hysbys a'u cynnwys o fewn y Gofrestr Asedau Sefydlog. Mae'r asedau sefydlog yn cynnwys 2 Gadair Beirniaid (ac nid 3 fel y dyfynnwyd eisoes), sydd wedi'u hadleoli i Amgueddfa Llambled (i'w dyfynnu megis £200 yr un); 2 Gadair Eisteddfod (i'w dyfynnu megis £200 yr un); 12 cadair lledr (i'w dyfynnu £250 yr un) – lleolwyd hwy ar hyn o bryd yn y brif ystafell, Neuadd Fictoria, Llanbedr Pont Steffan. Cytunwyd i ofyn tybed a allent gael eu symud i ystafell gyfarfod y Neuadd.

Dim gwerth ariannol: cloc; Plât Patagonia; Plât Ceredigion; 2 Fedal Aur Tseiniaidd; Bwrdd Rhôl Anrhydedd.

Meinciau ger y Gofeb Ryfel: £400 yr un

Mainc wedi'i lleoli y tu allan i Fynwent Soar: £419.71

Ffens Cae Maesyderi: £9,018 (yn cynnwys TAW). Ceisiwyd cyngor yn ymwneud â pherchnogaeth y ffens mewn cyfarfod Ymgynghorol Cyngor Sir Ceredigion yn diweddar. Dywedwyd bod perchnogaeth wedi ei drosglwyddo i GS Ceredigion, landlord Cae Maesyderi ar ôl i'r Cyngor Tref ei phrynu.

Hysbyswyd y Cyngor y Dref yn ystod y Cyfarfod Ymgynghorol nad oedd angen cynnwys yr eitem o fewn y Gofrestr Asedau Sefydlog. Dywedodd Mr

Derek Marshall, Archwilydd Mewnol y Cyngor Tref y byddai'n arfer da i dderbyn cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i fodloni gofynion archwilio posibl y dyfodol. Ymgwymerir gwaith atgyweirio'r ffens gan y Cyngor Tref lle bo angen. **PENDERFYNWYD** darganfod os oedd y ffens wedi'i chynnwys o fewn Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor Tref.

4.2 Cofnod 3.7.12 Hysbysfwrdd Llyfrgell y Dref: PENDERFYNWYD cyfnewid y Perspex presennol, sy'n medru gwrthsefyll fandaliaeth, am un newydd, gan ei fod yn aneglur mewn rhan. Y mae cynlluniau ar y gweill gan y Cyngh. Chris Thomas i ail-wneud y gwaith paent.

4.3 Cofnod 3.7.13 Cadwyn y Maer -y mae angen ei hail-phrisio, ac yswirio yn unol â'r gwerth.

4.4 Cofnod 3.8.2: Arddangosfeydd blodau dros fisoedd yr haf: cost amcangyfrifedig £10,000. Gallai'r Cyngor Tref gydweithio â Chynghorau Tref eraill i leihau'r gost.

4.5 Dywedodd y Cyngh. Chris Thomas y byddai angen ffens newydd a gwaith pellach ym Mharc-yr-Orsedd, y flwyddyn nesaf. Amcangyfrif £5,500.

4.6 Arwyddion Mynedfeydd Newydd ar gyfer y dref: derbyniwyd gohebiaeth pellach oddi wrth Mr Tom Delph-Janiurek, Uwch Beiriannydd Rheoli Traffig CS Ceredigion. Awgrymwyd ychwanegu platiau yn hytrach na disodli'r arwyddion yn eu cyfanwedd.

Er y bydd CSC yn gyfrifol am gynnal a chadw'r platiau, rhaid i'r Cyngor Tref gwrdd â chost adnewyddu pe baent yn cael eu dwyn, difrodi, neu eu difwyno ac angen eu hadnewyddu. Yn yr un modd, pan ddaw'r platiau i ddiwedd eu hoes defnyddiol, byddai'r Cyngor Tref yn gyfrifol am gwrdd â'r gost o'u hadnewyddu. Noder hefyd oherwydd uchder cymharol is lleoliad y platiau, efallai y byddai'r Cyngor Tref yn dymuno ystyried gwaredu â'r planwyr o dan yr arwyddion presennol, er mwyn osgoi eu cuddio mewn rhan.

Y dewis arall, yn hytrach nag arddangos platiau ategol fyddai ailgynllunio a disodli'r arwyddion dref yn gyfan gwbl. Byddai'r arwydd newydd yn debygol o angen pyst a sylfeini newydd. Yn fras, y gost, gan gynnwys ffi dylunio, yw £5,000 - £6,000. Sylwch y byddai'n annhebygol y byddai'r testun dwyieithog 'Man geni Rygbi yng Nghymru' yn gallu fod mewn ffont mwy, heb effeithio ar elfennau eraill o'r arwydd (h.y. gwaredu gwybodaeth yn ymwneud â gefeillio'r dref).

Roedd 2 fantais i ychwanegu platiau yn hytrach na chaffael arwyddion newydd sef y gost ariannol (£800 cyfanswm) a'r amser i'w gosod mewn lle (2 fis). **PENDERFYNWYD** dewis ychwanegu'r platiau i'w dylunio i fod yr un hyd â'r prif arwydd. Y plât i gynnwys y geirfa *Man Geni Rygbi* (yn ddwy-ieithog) a llun o bêl rygbi, **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyngh. Walters yn trafod ymhellach â'r Cyngor Sir. Y mae'r arbedion a wneir wrth brynu'r platiau yn hytrach nag arwyddion cyfan yn golygu fod arian wrth gefn ar gyfer arwyddion pellach yn y dref.

4.7 Lloches Bws Newydd: i'w lleoli o bosibl o flaen Banc Nat West.

Cynigiwyd gan y Cyngh. Hag Harris.

4.8 Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan T2424 – Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau 2017/18 Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Mr Gari Jones CS Ceredigion. Nodwyd y canlynol.

Mae mwyafrif y gwaith adeiladu ar gyfer Blwyddyn 1 2016/17 wedi ei gwblhau ac yn cynnwys: Ardal 20mya gyda mesurau tawelu traffig a throedffyrdd mwy

llydan yn ardal Ysgol Bro Pedr, ynghyd â goleuadau stryd newydd. Mae gosod cysgodfan beiciau a chysgodfan newydd ar gyfer sgwteri yn yr ysgol gynradd wedi eu rhaglennu am Ionawr. Un o amcanion y gwaith yma yw annog mwy o siwrneiau Teithio Llesol yn benodol i'r ysgol ac oddi yno ac rwy'n obeithiol fod preswylwyr Llambled yn gwerthfawrogi manteision y gwaith a wnaed hyd yma. Cyfanswm y grant ar gyfer Blwyddyn 1 2016/17 oedd £116,250 sy'n cynnwys yr arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Tref Llambled a Chyngor Sir Ceredigion.

Cytunwyd ar yr arian grant yn gychwynnol am 2 flynedd a darparwyd amcan bris o £62,000 i Lywodraeth Cymru am 2017/18, a hoffwn ofyn yn garedig i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan ystyried darparu cyfraniad ariannol pellach tuag at ofynion yr arian cyfatebol ar gyfer y gwaith arfaethedig fydd gobeithio'n cynnwys y canlynol:

- *Gwella'r droedffordd rhwng Maes y Felin a Ffordd Gogledd (A482).*
- *Gwella'r droedffordd ar Ffordd Gogledd (A482).*
- *Lledu'r droedffordd ar Ffordd y Porthmyn.*

Gwerthfawrogi yn fawr petai'n bosib i chi ymateb ar y mater yma gynted â phosib ym mis Ionawr am ein bod yn rhagweld y bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am grant ar ddiwedd Ionawr 2017.

Gan fy mod yn cysylltu â chi am yr uchod hoffwn hefyd ofyn yn garedig i aelodau ddechrau meddwl am llwybrau cerdded a seiclo newydd a fyddai o fudd i Llambled yn ogystal â llwybrau cyfredol sydd angen eu gwella er mwyn eu cynnwys yn y Map Rhwydwaith Integredig fydd angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017. Y bwriad yw ystyried llwybrau y byddech chi'n dyheu i'w cael er mwyn eu hystyried hyd at y 15 mlynedd nesaf. Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: <https://www.ceredigion.gov.uk/English/Resident/Travel-Roads-Parking/active-travel/Pages/default.aspx>. Byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd, mwy na thebyg ym mis Chwefror / Mawrth y flwyddyn nesaf a chysylltir ag Aelodau'r Gyngor Tref a'r Aelodau Lleol bryd hynny fel rhan o'r broses ymgynghori.

5. PENDERFYNIAD YNGHYLCH PRAESEPT 2017-18

Ystyriwyd opsiynau yn ymwneud â'r Praesept. Roedd y Cyngh. Rob Phillips o blaid Praesept digyfnewid o £41,000. Rhagwelir costau cyfredol oddeutu £41,000, a gellir defnyddio'r Praesept i gwrdd â'r gost. Teimlodd mai nawr oedd yr amser i wario ychydig o'r £129,415 wrth gefn.

Ar ôl grym drafodaeth, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol (Cynigydd y Cynghorydd Robert Phillips, Eilydd, y Cynghorydd Hag Harris) y byddai'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol h.y. £ 41,000 oherwydd:

- Yr hinsawdd economaidd bresennol;
- Haelioni praeseptau gorffennol oherwydd gostyngiadau mewn Costau Camerâu Teledu Cylch Cyfyng;
- Lefel uchel o gronfeydd wrth gefn.

Mae'r £41,000 yn cynrychioli taliad blynyddol o £45.19 neu 87 ceiniog yr wythnos ar gyfer Treth-dalwr y Cyngor Band D. Canran fechan cyfanswm y Dreth Gyngor a gasglwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yw'r Praesept e.e. Yn y Fl. 2016-17 byddai Treth-Dalwr y Cyngor Band D wedi Talu £1,124 i'r Cyngor Sir; £200.07 i'r Heddlu Dyfed-Powys a £45.19 i Gyngor y Dref: Cyfanswm **£1,368.94** *

6. Adnewyddu Polisi Yswiriant Zurich y Cyngor Tref

PENDERFYNWYD adnewyddu'r ail o 3 Blynedd Cytundeb Tymor Hir £1,465.23. I ychwanegu £7,113.60 - goleuadau Nadolig newydd, a brynwyd ym mis Tachwedd 2016. Hefyd, i wneud ymholiadau ynghylch Cadwyn y Maer (Traws-cyf 4.3) a'r Ffens Cae Maesyderi (Traws-cyf 4.1)

7. TALIADAU

Gwnaed y taliadau canlynol gan fod y Cyngor Tref heb fod wedi cynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr (er mwyn cwrdd â gofynion y taliad)

7.1 Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Allanol y Cyngor Tref ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17: £231 (TAW £0);

7.2 SWALEC: Goleuadau ger y Gofgolofn: £14.04; TAW £0.69;

7.3 Cyflog y Clerc (net) Tachwedd 2016 £760.79;

7.4 Cyllid a Thollau EM Tachwedd 2016 £90.92;

7.5 Gwres/Golau/Storio: Clerc - Hydref, Tach, Rhagfyr 2016 £ 60.

8. Banc Lloyds Bond Tymor Pendant o £108,000 yn dod i ddiwedd cyfnod ar yr 23/01/2017. PENDERFYNWYD ail-fuddsoddi £78,000, felly bydd arian ar gael yn syth os bydd angen megis: £18,726 (swm a ragwelir ym Manc Lloyds Cyfrif Cyfredol 1/04/2017) + £41,000 (Praesept) + £30,000 (trosglwyddo o'r Bond) + Llog o £1,143 (ar ôl i gyfnod y Bond ddod i ben); -oddeutu £91,000. £41,000 i gwrdd â chostau bob dydd a £50,000 ar gyfer gwariant pellach.

9. MATERION CYNLLUNIO

9.1 Cais Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion: A17007: Ymgeisydd: WD Lewis a'i Feibion. Lleoliad: 90-92 Stryd y Bont, Llanbedr PS. Y Bwriad: Codi estyniad i'r adeilad storio porthiant. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim Gwrthwynebiad.

9.2 Cais Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion: A161196: Ymgeisydd: LAS Ailgyrchu Cyf. Lleoliad: Heol Tregaron, Llanbedr PS. Y Bwriad: Cais rhannol ôl-weithredol i chodi adeilad swyddfa atodol newydd. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim Gwrthwynebiad.

9.3 Cais Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion: A161187: Ymgeisydd: Gerddi Belle Vue, Aberaeron, Ceredigion. Y Bwriad: Newid defnydd y glinig yn siop gwerthu dillad. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim Gwrthwynebiad. **Daeth y cyfarfod i ben am 8.55pm.**

10. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Iau 26ain Ionawr 2017 am 7.30pm, Neuadd Eglwys San Pedr, Llanbedr PS.(Arwyddwyd: Cadeirydd/Dyddiad

-
- *Ffigyrau wedi'u dyfynnu Cyngor Sir Ceredigion 2016-17. Gwybodaeth ar gyfer Trethdalwyr y Cyngor*